

AR 04/05 (inside front cover) Fin

Ynglŷn â Postcomm

Corff rheoleiddio annibynnol yw Postcomm - y Comisiwn Gwasanaethau Post. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 i sicrhau bod gweithredwyr y gwasanaeth post, yn cynnwys Post Brenhinol, yn diwallu anghenion eu cwsmeriaid ym mhob rhan o'r DU, yn anad dim drwy sicrhau gwasanaeth post cyffredinol.

Caiff ein polisïau eu llywio gan fwrdd o saith comisiynydd, o dan arweiniad y cadeirydd, Nigel Stapleton a'r prif weithredwr, Sarah Chambers. Rhyngddynt, mae gan gomisiynwyr Postcomm brofiad eang o wasanaethau post, yn cynnwys marchnata uniongyrchol, cystadleuaeth, busnes, economeg, materion yn ymwneud â defnyddwyr, materion rhanbarthol, undebau llafur a rheoleiddio.

Gweledigaeth Postcomm yw darparu ystod o wasanaethau post dibynadwy, arloesol ac effeithlon, yn cynnwys gwasanaeth post cyffredinol, a gaiff ei werthfawrogi gan gwsmeriaid ac a gaiff ei ddarparu drwy farchnad bost gystadleuol.

Wrth geisio cyflawni'r weledigaeth hon, mae Postcomm wedi ei gwneud yn ofynnol i Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, wedi cyflwyno cystadleuaeth i ran o'r farchnad ac wedi trwyddedu nifer o gwmnïau i gystadlu â Post Brenhinol. Oherwydd bod gan Post Brenhinol fonopoli fwy neu lai ar y farchnad postio llythyrau, mae Postcomm hefyd yn rheoleiddio'r prisiau y gall eu codi ac ansawdd ei wasanaeth. Mae hyn yn atal y cwmni rhag manteisio'n annheg ar ei sefyllfa gref.

Mae'r llywodraeth hefyd wedi gofyn i Postcomm fonitro a rhoi cyngor ar rwydwaith Swyddfa'r Post. Gwna hyn drwy gyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Adran Masnach a Diwydiant.

Y COMISIWN GWASANAETHAU POST

Adroddiad Blynyddol 2004-2005

At: Y Gwir Anrhydeddus Alan Johnson AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant

Amgaeaf adroddiad y Comisiwn ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 fel sy'n ofynnol o dan Adran 45 Deddf Gwasanaethau Post 2000.

Nigel Stapleton

Cadeirydd, Y Comisiwn Gwasanaethau Post

POSTCOMM
Postal Services Commission
6 Hercules Road
London SE1 7DB
www.psc.gov.uk

Agenda strategol Postcomm

Gwasanaeth cyffredinol

Sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol fforddiadwy yn parhau i gael ei ddarparu.

Hyrwyddo cystadleuaeth gynaliadwy, effeithiol

Anelwn at roi dewis i gwsmeriaid drwy gystadleuaeth effeithlon a chynaliadwy rhwng gweithredwyr gwasanaethau post.

Diogelu buddiannau cwsmeriaid

Pan na fydd gan gwsmeriaid lawer o ddewis effeithiol, bydd Postcomm yn sicrhau y byddant yn elwa ar wasanaeth cyffredinol fforddiadwy a diogelwch digonol o ran prisiau ac ansawdd gwasanaeth.

Rhwydwaith Swyddfa'r Post

Anelwn at sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y llywodraeth ar ddyfodol rhwydwaith Swyddfa'r Post yn ystyried gwybodaeth, gwaith ymchwil a chyngor Postcomm.

Creu cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid

Mae ein rhanddeiliaid yn cynnwys cwsmeriaid post o bwys, diwydiannau cyflenwi, gweithredwyr, adrannau'r llywodraeth, undebau llafur, Postwatch, a grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau cwsmeriaid, busnes a masnach, cwsmeriaid diamddiffyn a'r Senedd. Ein nod yw creu, cynnal a chefnogi cydberthnasau cryf gyda phob un o'r grwpiau hyn drwy broses ragweithiol o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Sefydliad sy'n dysgu

Rydym yn awyddus i fod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon, gydag aelodau o staff ymrwymedig sy'n llawn cymhelliant sy'n gwella'n barhaus ac sy'n cael eu hystyried fel 'y goreuon' o gymharu â'n cymheiriaid mewn cyrff rheoleiddio eraill.

ADRODDIAD y Cadeirydd

Nid oes amheuaeth ein bod wedi gweld mwy o newidiadau yn y diwydiant post yn ystod y flwyddyn ddiwethaf nag a welwyd ar unrhyw adeg yn ystod y 350 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

Mae dau ffactor wedi ysgogi'r newidiadau hyn sydd wedi bod yn newidiadau buddiol ar y cyfan. Yn gyntaf, llwyddodd Post Brenhinol i gwblhau'r broses o weithredu ei raglen adnewyddu bellgyrhaeddol a ddechreuwyd yn 2002. Yn ail, mae tair blynedd o waith manwl gan Postcomm i greu fframwaith polisi a fydd yn agor y farchnad i gystadleuaeth ac yn rheoleiddio monopoli Post Brenhinol er budd y cwsmeriaid wedi dechrau dwyn ffrwyth.

Gallwn weld yn awr bod tair thema allweddol gweledigaeth Postcomm ar gyfer y diwydiant yn dechrau cael eu gwireddu - Post Brenhinol mwy effeithlon, mwy o arloesed o ran cynnyrch a chystadleuaeth effeithiol.

Fodd bynnag, dim ond megis dechrau y mae'r gwaith a bydd angen ffocws clir a gwaith datblygu pellach ar gyfer polisiau cystadleuaeth a pholisiau rheoleiddiol Postcomm er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu ar y cynnydd cychwynnol hwn. Mae'r rhwystrau a wynebwr gan gystadluewyr newydd yn parhau i fod yn niferus ond mae ymateb cwsmeriaid i'r cynnyrch newydd y maent yn ei gyflwyno i'r farchnad wedi bod yn gadarnhaol iawn.

.....Post Brenhinol mwy effeithlon,

Mae Post Brenhinol wedi llwyddo i weddnewid ei berfformiad ariannol, er bod hynny wedi creu costau byrdymor sylweddol o ran dirywiad yn ansawdd y gwasanaeth cyn ac yn ystod y gwaith o weithredu ei raglen adnewyddu. Mae'r cwmni yn cydnabod y bydd angen llawer o fentrau eraill er mwyn profi ei weledigaeth mai hwy yw'r cwmni post gorau a mwyaf dibynadwy yn y byd. Er mwyn darparu gwasanaeth post dibynadwy o'r safon uchaf, yn cynnwys y gwasanaeth cyffredinol, mae'r cwmni yn anelu at drawsnewid yr hyn a gynigir i gwsmeriaid, sicrhau bod ei arbedion gweithredol yn cymharu â'r gorau yn y maes a chynnwys ei bobl yn y gwaith o drawsnewid arferion gwaith.

Mae Postcomm yn awyddus i gefnogi Post Brenhinol yn y gwaith o gyflawni'r amcanion hyn, ac rydym yn cydnabod y bydd angen lefel uwch o lawer o fuddsoddiad newydd yn y busnes na'r lefel a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n amhosibl i ni ddiwallu dyheadau Post Brenhinol o ran proses enfawr o ddadreoleiddio ei fusnes yn y dyfodol agos, o ystyried bod ganddo gymaint o fantais gystadleuol a'i fod yn parhau i fwynhau'r pŵer sy'n gysylltiedig â chyfran o 99% o'r farchnad.

mwy o arloesed o ran cynnyrch,

Efallai bod llawer o bobl yn ystyried y farchnad bost fel marchnad aeddfed a marwaidd, a fydd ond yn dirywio yn yr hirdymor yn sgîl twf cyflym negeseuon e-bost a negeseuon testun. Fodd bynnag, mae'r DU ymhlith yr ychydig

economïau mawr a datblygedig sydd wedi gweld twf mewn symiau post, er mai twf araf fu hyn, yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Rydym eisoes yn gweld bod cyflwyno cystadleuaeth yn gallu ysgogi arloesed o ran cynnyrch a dylai hyn ategu'r twf a sicrhau grym y farchnad bost yn y blynyddoedd i ddod. Mae post uniongyrchol wedi bod yn ysgogwr amlwg yn y twf a welwyd yn ddiweddar ond mae e-gaffael wedi bod yn gyfrannwr cadarnhaol hefyd.

Gwelwyd arloesed yn y broses o ddsbarthu post - drwy gysyniadau megis dosbarthu ben bore, gwasanaethau arbenigol ar gyfer eitemau sydd angen lefel uchel o ddiogelwch wrth gael eu cludo yn ogystal ag arloesedd gweithredwyr sy'n defnyddio rhwydwaith Post Brenhinol ar gyfer dosbarthu dros y 'filltir olaf'.

.....a chystadleuaeth mwy effeithiol.

Mae rhai defnyddwyr post yn dechrau cael cynnig dewis o wasanaeth ac nid oes angen iddynt ddefnyddio Post Brenhinol mwyach. Mae dwy elfen amlwg wedi ysgogi'r gystadleuaeth hon. Yn gyntaf, mentrau rhyddfrydoli Postcomm, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2003 ac a ddatblygwyd yn sgîl y penderfyniad a wnaed ym mis Chwefror 2005 i ddiddymu monopoli llythyrau statudol Post Brenhinol yn llwyr o 1 Ionawr 2006. Yn ail, ers mis Mai 2004 mae cystadleuwyr wedi cael mynediad i rwydwaith dosbarthu Post Brenhinol ac maent wedi llwyddo i sicrhau busnes drwy ddelio â phost i gwmnïau cyfarwydd megis Vodafone, SKY a Tesco Clubcard.

Fodd bynnag, prif rwymedigaeth Postcomm yw sicrhau gwasanaeth cyffredinol. Rydym yn monitro effaith y gystadleuaeth yn ofalus er mwyn sicrhau bod cwmpas ac ansawdd y gwasanaeth cyffredinol yn cael eu cynnal er budd pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau post.

Er bod y rhan fwyaf o'r darparwyr sy'n newydd i'r farchnad yn targedu cwsmeriaid busnes mwy, mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr post yn elwa ar y gystadleuaeth newydd hon. Y rheswm am hyn yw bod Post Brenhinol wedi ymateb i'r gystadleuaeth drwy ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid a chynnig gwasanaeth o ansawdd gwell.

....sydd wedi'i hysgogi ymhellach gan ymrwymiad comisiynwyr a staff Postcomm

Martin Stanley - Prif Weithredwr a chomisiynydd cyntaf Postcomm - gadawodd ym mis Hydref 2004 i ymuno â'r Comisiwn Cystadleuaeth. Ei olynnydd yw Sarah Chambers, a ymunodd â ni o'r Adran Masnach a Diwydiant. Braf iawn oedd clywed bod cyfraniad sylweddol Martin wedi arwain at y dyrchafiad hwn a dymunwn yn dda iddo yn ei rôl newydd. Daeth cyfnod un o'r Comisiynwyr cyntaf eraill, Julia Kaufman, i ben ym mis Mai 2005 a'i holynnydd yw Wanda Goldwag, sydd â phrofiad sylweddol ym maes marchnata uniongyrchol a gweithio gyda busnesau bach. Croeso i Sarah a Wanda a hoffwn ddiolch i Martin a Julia am eu cyfraniadau pwysig i'n gwaith.

Yn olaf, gair arbennig o ddiolch i'm cyd-Gomisiynwyr a phob aelod o staff yn Postcomm sydd wedi cyflawni yn llwyddiannus iawn er gwaetha'r ffaith bod eu baich gwaith wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Credwn ein bod yn gweithredu'n effeithiol fel tîm sy'n cael ei hysgogi'n fawr gan y canlyniadau rydym yn dechrau eu cyflawni.

Nigel Stapleton.

Adroddiad y Prif Weithredwr

Bu eleni yn flwyddyn o drawsnewid i Postcomm: rydym wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at agor y farchnad yn llwyr a chyflwyno cyfres addawol newydd o reolaethau prisiau a ddaw i rym y flwyddyn nesaf; ac rydym wedi rhyngweithio gyda Phost Brenhinol sy'n newid, a oedd wedi dechrau newid ei ymagwedd tuag at gystadleuaeth a mynd i'r afael ag ansawdd ei wasanaeth gydag egni newydd.

Mae'r Comisiwn ei hun mewn cyfnod o drawsnewid: gadawodd dau o'r saith comisiynydd yn ystod y flwyddyn a phenodwyd olynwyr iddynt. Dim ond tri aelod o'r tîm presennol sydd wedi bod yn eu swydd am ers mwy na deunaw mis. Cyflwynwyd sgiliau newydd i'r Comisiwn a hefyd i'r tîm gweithredol er mwyn adlewyrchu'r camau o newid yn natblygiad Postcomm a'r gwaith o ddatblygu marchnad bost y DU.

Agor y farchnad i gystadleuaeth

Y penderfyniad mwyaf arwyddocaol a wnaethom oedd agor y farchnad yn llawn 15 mis ynghynt na'r disgwyl (a fyddai'n dod i rym o 1 Ionawr 2006). Cafodd hyn effaith ar ein baich gwaith ar gyfer gweddill y flwyddyn ar unwaith. Mae'n debyg y bydd hyn yn arwain at oblygiadau hirdymor a chadarnhaol sydd hyd yn oed yn fwy sylfaenol i farchnad bost y DU – y farchnad gyntaf yn Ewrop i gael ei rhyddfrydoli yn llwyr gan gyfundrefn reoleiddiol effeithiol.

Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad hwn. Cyhoeddwyd ein cynnig cychwynnol ym mis Medi 2004 yn dilyn ystyriaeth ofalus o effaith agor y farchnad yn gynharach ar allu Post Brenhinol i ariannu ei rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol. Roedd y dystiolaeth yn glir: eisoes yn 2003/04, cyn i'r arbedion o'i gynllun adnewyddu ddwyn ffrwyth, llwyddodd y cwmni i sicrhau elw gweithredol o 6% (£348m) ar refeniw o'i fusnes llythyrau sydd â phrisiau wedi'u rheoli.

Dim ond effaith fach iawn a gafodd cam cyntaf y gystadleuaeth bost, a ddechreuwyd ym mis Ebrill 2003 ac a agorodd rannau mwyaf proffidiol y farchnad llythyrau, ar fonopoli Swyddfa'r Post. Mae gan Post Brenhinol gyfran o'r farchnad sy'n parhau i fod yn fwy na 99%, a dim ond ychydig iawn o gwsmeriaid a gafodd ddewis effeithiol o weithredwyr. Croesawodd Post Brenhinol y cynnig i gyflymu'r broses o ryddfrydoli'r farchnad, gan adlewyrchu newid diwylliant calonogol o fewn y cwmni. Cadarnhawyd y cynnig ym mis Chwefror, yn dilyn ymgynghoriad pellach a oedd yn sicr o blaid diddymu'r monopoli ar yr amserlen hon.

Roedd gwneud y penderfyniad i gyflymu'r broses ryddfrydoli yn un peth: mater arall yw rhoi'r holl weithdrefnau ar waith a fydd yn gwneud yn siŵr bod y farchnad aml-weithredwr yn llwyddo.

Cyflwynwyd rhaglen waith ddwys i ddatblygu fframwaith trwyddedu newydd i annog mynediad i'r farchnad tra'n darparu dulliau digonol i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid. Mae'r Comisiwn yn credu bod angen cod ymarfer ar

gyfer hyn er mwyn sicrhau bod pob cwmni post yn cydweithio ar faterion gweithredol cyffredin megis anfon post ymlaen a delio â phost sy'n cael ei ddychwelyd i'r anfonwr, a chod ar wahân i ddiogelu integreidd y gwasanaeth post. Dechreuwyd hefyd ar y gwaith o adolygu'r broses o reoli'r ffeil cyfeiriadau cod post (PAF), cronfa ddata Post Brenhinol sy'n rhestru pob cyfeiriad post yn y DU, sy'n cael ei darparu ar drwydded i lawer o fusnesau eraill.

Tra buom yn gweithio ar y fframwaith trwyddedu ar gyfer cam olaf y gwaith rhyddfrydoli parhawyd â'r gwaith o drwyddedu gweithredwyr newydd i gystadlu yn y maes a ryddfrydolwyd eisoes. Cyhoeddwyd pedair trwydded hirdymor yn ystod y flwyddyn, gan greu cyfanswm o 10 deiliad trwydded o'r fath.

Gwasanaeth cyffredinol

Dyletswydd gyntaf Postcomm yw sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu. Ym mis Mehefin 2004 diffiniwyd pum maes gwasanaeth a ddarperir gan Post Brenhinol y mae'n rhaid i'r cwmni eu darparu fel gwasanaeth post cyffredinol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r gwasanaethau hyn gael eu darparu am bris unffurf fforddiadwy ar draws y DU. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn adolygiad hir pan ofynnwyd i gwsmeriaid domestig a chwsmeriaid busnes, am y tro cyntaf, yr hyn yr oeddent am ei gael gan y gwasanaeth cyffredinol. Mae'n adlewyrchu dadgofrestriad sylweddol a phroses o gael gwared ar y cyfyngiadau a wynebir gan Post Brenhinol. Roedd y cwmni yn awyddus i ni fynd ymhellach byth, ond roeddem yn benderfynol o sicrhau y byddai pawb yn parhau i elwa ar y gwasanaeth cyffredinol 'un pris ar gyfer unrhyw le'.

Ansawdd y gwasanaeth

Ar ddechrau'r flwyddyn roedd Post Brenhinol yn wynebu argyfwng o ran ansawdd gwasanaeth. Erbyn diwedd y flwyddyn flaenorol nid oedd wedi llwyddo i gyflawni unrhyw un o'i 15 targed gwasanaeth - perfformiad truenus a ailadroddwyd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn hon. Mae'r perfformiad wedi gwella'n sylweddol ers hynny, o ganlyniad i newid angenrheidiol i'r ymagwedd tuag at ansawdd ar y lefelau uchaf o fewn Post Brenhinol.

Croesawn y gwelliant hwn, ac yn arbennig yr ymdrech barhaus a wnaed ar bob lefel o'r cwmni i gynnal y gwelliant hwn, er mai megis dechrau y mae'r gwaith o sicrhau bod pob rhan o'r DU yn elwa ar y ffocws newydd hwn ar ansawdd. Mae record nifer o ardaloedd cod post yn parhau i fod yn is na'r lefelau targed ac mae angen mynd i'r afael â hyn ar frys.

Yn dilyn ymchwiliad trylwyr i'r rhesymau sy'n sail i'r methiannau gwasanaeth a brofwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, cyhoeddwyd cyfres o fesurau ym mis Mawrth 2005 a oedd wedi'u rhoi ar waith, neu a oedd ar fin cael eu rhoi ar waith. Sicrhaodd yr amodau trwydded a gyflwynwyd gan Postcomm yn y broses rheoli prisiau flaenorol bod iawndal sylweddol yn cael ei dalu i gwsmeriaid: £43m mewn iawndal uniongyrchol, a £17m o refeniw Post

Brenhinol ar gyfer 2004/05. Gwnaed addewid hefyd gan Post Brenhinol y byddai'n gwella ei weithdrefnau rheoli ansawdd ac yn ymestyn ei dermau credyd ar gyfer cwsmeriaid busnes o 21 diwrnod i 30 diwrnod, gan hwyluso unrhyw hawliadau iawndal ar gyfer 2005/06.

Hyrwyddo cystadleuaeth

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn cynhaliwyd asesiad manwl o sefyllfa bresennol y gystadleuaeth yn y farchnad bost a'r rhwystrau o ran mynediad – Adolygiad o'r Farchnad Gystadleuol.

Ym mis Mawrth 2005 cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn nodi pa gamau pellach y byddem yn eu cymryd i ysgogi marchnad gystadleuol, gan fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd yn flaenorol. Penderfynwyd y byddem yn ystyried y posibilrwydd o gynnwys mynediad i broses rheoli prisiau nesaf Post Brenhinol; monitro Post Brenhinol yn fanwl er mwyn chwilio am unrhyw arwyddion o ymagwedd gwrth-gystadleuol; darparu rhagor o wybodaeth i gwsmeriaid am y dewisiadau sydd ar gael iddynt; a pharhau i drafod gyda Thrysorlys EM y posibilrwydd o gyflwyno cyfradd TAW ostyngol ar gyfer pob gweithredwr post trwyddedig, yn cynnwys Post Brenhinol. Argymhellwyd y dylid diddymu holl freintiau hanesyddol Post Brenhinol, ar wahân i'r fraint i gael ei eithrio rhag cyfyngiadau parcio wrth gasglu post o flychau post.

O ran ymddygiad gwrth-gystadleuol, ym mis Ionawr 2005 daethom i'r casgliad bod Post Brenhinol wedi torri amodau ei drwydded a gynlluniwyd i hwyluso cystadleuaeth. Gwnaeth y cwmni lawer o addewidion i Postcomm ynglŷn â'r ffordd y byddai'n cynnal unrhyw gynigion hyrwyddo a chynigion arbennig nad oes ganddynt delerau safonol yn y dyfodol. Rydym yn parhau i ymchwilio i gwynion pellach gan gystadleuwyr sy'n credu bod eu busnesau yn cael eu bygwth gan gamau annheg gan Post Brenhinol, yn cynnwys ymchwiliad sylweddol i gynnig Post Brenhinol o brisiau fesul ardal ar gyfer mynediad.

Croesawodd Postcomm gyflwyniad y Fforwm Cystadleuaeth Bost ar ddechrau 2005. Grŵp o weithredwyr trwyddedig yw hwn sy'n darparu cyngor gwerthfawr ar ddatblygu'r farchnad ac effaith rheoleiddio.

Rheolaethau prisiau ac ansawdd gwasanaeth newydd

Cyhyd ag y bydd gan Post Brenhinol safle cryf yn y farchnad bost a thra bydd sefyllfa lle na fydd gan lawer o gwsmeriaid ddewis effeithiol o weithredwr, bydd angen diogelu cwsmeriaid Post Brenhinol drwy reoli ei brisiau ac ansawdd ei wasanaeth. Yn y rhan drwyddedig o'r farchnad mae gan Post Brenhinol gyfran o fwy na 99% o'r farchnad. Bydd y rheolaethau presennol yn dod i ben ym mis Ebrill 2006, ac ym mis Medi 2004 cyflwynwyd ein syniadau cychwynnol ar y rheolaethau a ddylai eu disodli. Rydym yn rhagweld fframwaith a fydd yn caniatáu i gyfundrefn reoleiddio'r Post Brenhinol gael ei llacio'n raddol wrth i gystadleuaeth wirioneddol ddatblygu.

Parhaodd yr ymgynghoriad ar ein cynigion fframwaith hyd ddiwedd y flwyddyn (cyhoeddwyd ein cynigion cychwynnol llawn ar 1 Mehefin 2005). Yn ystod yr

ymgyngoriad cynhaliwyd adolygiad trylwyr o gostau darparu gweithgareddau rheoledig Post Brenhinol, yn cynnwys y gwasanaeth cyffredinol. Ystyriwyd hefyd angen Post Brenhinol i wneud cyfraniadau oherwydd diffygion yn y gronfa bensiwn, buddsoddi mewn offer cyfalaf newydd ac ariannu ei weithrediadau.

Mae'n amlwg bod y cwmni wedi perfformio'n llawer gwell na'r dull rheoli prisiau presennol ac mae ei sefyllfa ariannol yn iach. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i bennu dull rheoli newydd a fydd yn galluogi cwsmeriaid i ewa ar arbedion gwell Post Brenhinol, rhywbeth nad oedd yn bosibl iddynt ei wneud cyn hyn. Gallai hyn ddigwydd tra'n parhau i roi'r rhyddid i Post Brenhinol wneud elw digonol ar ei weithgareddau rheoleiddiol, sicrhau elw pellach pe byddai'n parhau i wneud gwelliannau effeithlonrwydd sylweddol, a lleihau ei ddiffyg o ran y gronfa bensiwn.

Mae ein cynigion yn ceisio rhewi prisiau domestig arferol Post Brenhinol o 2006 i 2010, cyflwyno targedau ansawdd sy'n cydweddu'n well ag anghenion cwsmeriaid a chreu amodau a fydd yn galluogi gweithredwyr newydd i sefydlu eu hunain yn llwyddiannus yn y farchnad bost. Mae ymgynghoriadau ar y cynigion hyn yn parhau.

Hefyd, cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ar gynigion Post Brenhinol i ailstrwythuro ei brisiau mewn ffordd a fyddai'n golygu eu bod yn amrywio yn ôl maint a fformat, yn ogystal â phwysau (a elwir yn 'brisio yn seiliedig ar faint', neu'n fwy diweddar 'prasio o ran cyfran'), er mwyn sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng prisiau a chostau. Cafwyd 10,000 o ymatebion i'n hymgyngoriad cyntaf, ym mis Ebrill 2004. Tuag at ddiwedd y cyfnod hwn cyflwynodd Post Brenhinol gyfres o gynigion a oedd yn mynd i'r afael â'r materion a oedd wedi peri pryder arbennig i ni (a'n cwsmeriaid). Ar 5 Ebrill 2005 cyflwynwyd ein casgliadau dros dro sef ein bod yn bwriadu derbyn y cynigion diwygiedig, yn amodol ar unrhyw dystiolaeth newydd a allai ddod i law yn ystod y cyfnod ymgynghorol presennol.

Integredd y gwasanaeth post

Dim ond drwy sicrhau pobl bod eu post mewn dwylo diogel pa bynnag weithredwr sy'n ymdrin ag ef y gellir ennyn hyder cwsmeriaid yn y farchnad sy'n datblygu. Gwnaed honiadau yn ystod y flwyddyn nad oedd Post Brenhinol yn llwyddo gyda rhai o'i weithdrefnau recriwtio, gwirio a hyfforddi staff a sicrhau diogelwch ar gyfer y post o fewn y system bost. Dechreuodd Postcomm ymchwiliad trylwyr i ganfod a wnaeth Post Brenhinol bob ymdrech resymol i ddilyn ei weithdrefnau diogelu post. Mae'r ymchwiliad hwn yn parhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Ym mis Ionawr, llwyddodd Postcomm yn ei erlyniad cyntaf mewn achos o waredu post, yn dilyn ymchwiliad i weithgareddau cyflogai achlysurol a oedd yn gweithio i gwmni dosbarthu post trwyddedig. Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi cynnig y dylai pob gweithredwr trwyddedig fodloni safonau cyffredin er mwyn diogelu'r post y maent yn gyfrifol amdano rhag lladrad, difrod neu ymyrraeth. Dechreuwyd ymgynghori ym mis Mawrth 2005 ar god

ymarfer ar integredd y gwasanaeth post a fyddai, ar ôl cytuno arno, yn un o'r amodau trwydded a fyddai'n berthnasol i bob gweithredwr.

Rhwydwaith Swyddfa'r Post

Dechreuodd Postcomm ar y gwaith o adolygu rhaglen ailddyfeisio trefol Swyddfa'r Post, er mwyn gwerthuso'r effeithiau economaidd a chymdeithasol byr dymor a thymor canolig ar gwsmeriaid domestig a chwsmeriaid busnes, is-bostfeistri a Swyddfa'r Post Cyf. Caiff y casgliadau a'r argymhellion eu cyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol Rhwydwaith Swyddfa'r Post sy'n helpu i ddarparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Edrych i'r dyfodol

Crynodeb yn unig yw'r adroddiad hwn o'r cynnydd a gyflawnwyd mewn rhai o'n gweithgareddau proffil uwch. Mae fy mhedwar mis cyntaf yn Postcomm wedi dangos yn glir i mi fy mod wedi ymuno yn ystod cyfnod cyffrous iawn yn y gwaith o ddatblygu marchnad bost y DU. Yn ogystal, mae hefyd yn glir bod gennym lawer i'w gyflawni mewn cyfnod byr o amser os ydym am sicrhau bod agor y farchnad a'r prosesau sy'n gysylltiedig â hyn yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth, ac yn arbennig y bydd pob cwsmer yn elwa ar hynny. Bydd eleni yr un mor brysur a'r un mor bwysig i gyflwr y farchnad a'i chyfranogwyr yn yr hirdymor.

Comisiynwyr (with pictures)

Mae saith comisiynydd Postcomm yn gyfrifol ar y cyd am sefydlu'r fframwaith polisi ar gyfer swyddogaethau rheoleiddio ac ymgynghori Postcomm. Caiff comisiynwyr annibynnol eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant am gyfnod o dair neu bum mlynedd. Maent yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis ac yn cymeradwyo pob dogfen ymgynghori a phenderfynu arwyddocaol ac adroddiadau a gyhoeddir.

Maent hefyd yn cymeradwyo cynllun busnes Postcomm ac yn monitro perfformiad yn erbyn amcanion y cynllun busnes. Dirprwyir materion gweithredol o ddydd i ddydd i'r prif weithredwr a staff Postcomm.

Ar wahân i'r prif weithredwr, mae pob comisiynydd yn gweithio ar fusnes Postcomm ar sail rhan amser.

Comisiynwyr Postcomm yw:

Nigel Stapleton, cadeirydd ers mis Ionawr 2004. Mr Stapleton yw cadeirydd UNIQ ccc hefyd, cwmni prydau parod Ewropeaidd. Yn ogystal, mae'n un o gyfarwyddwyr anweithredol Cyfnewidfa Stoc Llundain ccc a Reliance Security Group ccc.

Robin Aaronson, comisiynydd ers mis Mehefin 2000. Mae Mr Aaronson yn gyfarwyddwr cyswllt LECG Cyf, cwmni o ymgynghorwyr economaidd a busnes. Cyn aelod o Gyngor Cenedlaethol Defnyddwyr Swyddfa'r Post a chyn bartner yn PricewaterhouseCoopers.

Simone Bos, comisiynydd ers mis Ebrill 2004. Mae Ms Bos yn ymgynghorydd annibynnol ym maes strategaeth busnes a materion Ewropeaidd sy'n gweithio yn yr Iseldiroedd. Hyd 2001, roedd Ms Bos yn aelod o fwrdd gweithredol TPG Post BV, sef gweithredwr post yr Iseldiroedd.

Tony Cooper, comisiynydd ers mis Mehefin 2000. Mae Mr Cooper yn gadeirydd Cymdeithas y Diwydiant Niwclear, aelod anweithredol o'r Comisiwn Coedwigaeth ac aelod o bwyllgor archwilio'r Comisiwn Coedwigaeth. Yn gyn gyd-ysgrifennydd cyffredinol Prospect, yr undeb ar gyfer peirianwyr, gwyddonwyr, rheolwyr, gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr, bu hefyd yn aelod o Gyngor Cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur.

Janet Lewis-Jones, comisiynydd ers mis Mehefin 2000. Mae Ms Lewis-Jones hefyd yn aelod o Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain ac mae'n is-lywydd Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Wanda Goldwag, comisiynydd ers mis Ebrill 2005. Mae Ms Goldwag, sy'n arbenigwr yn y maes marchnata uniongyrchol, yn ymgynghorydd i Smedvig Venture Capital ar hyn o bryd. Mae hefyd yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Cymdeithas Performing Right, yn gyfarwyddwr dau gwmni hyfforddi ac yn gadeirydd gweithredol Goldwag Empson ac Otitoju Cyf, asiantaeth gwasanaethau teyrngarwch.

Sarah Chambers, comisiynydd a phrif weithredwr ers mis Tachwedd 2004. Mae Ms Chambers yn gyn-gyfarwyddwr uned fodurol yr Adran Masnach a Diwydiant. Ymunodd â Postcomm ym mis Tachwedd 2004.

Cwblhaodd **Julia Kaufmann OBE**, ei chyfnod o bum mlynedd gyda'r comisiwn ym mis Mai 2005.

Cwblhaodd **Ken Olisa**, ei gyfnod o bedair blynedd fel comisiynydd Postcomm ym mis Mai 2004.

Martin Stanley, cyn brif weithredwr Postcomm. Gadawodd Postcomm i fod yn brif weithredwr y Comisiwn Cystadleuaeth ym mis Hydref 2004.

Ein pobl (with pictures)

Debbie Gillatt sy'n arwain tîm Postcomm sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth Post Brenhinol â'i rwymedigaethau i gwsmeriaid, yn cynnwys sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth cyffredinol dibynadwy. Mae Debbie hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion ynghylch ymddygiad gwrth-gystadleuol yn y farchnad bost ac mae hefyd yn gyfrifol am drwyddedu gweithredwyr eraill ac ymchwilio i droseddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Post.

Richard Moriarty yw'r cyfarwyddwr cystadleuaeth a rheoleiddio, ac mae'n gyfrifol am ryddfrydoli'r farchnad bost a rhoi rheoliadau ar waith ar gyfer gweithgareddau monopoli. Richard oedd yn gyfrifol am gyfarwyddo'r rhaglen sicrhodd y byddai'r farchnad yn cael ei rhyddfrydoli'n llwyr erbyn mis Ionawr 2006, ynghynt na'r disgwyl.

William Sprigge yw'r prif ymgynghorydd cyfreithiol. Mae'n gyn gyfarwyddwr gwasanaethau cyfreithiol Ofgem, yn gyn ymgynghorydd cyfreithiol i Ofgas a chyn hynny bu'n gyfreithiwr ymgynghorol yn isadran ymchwiliadau'r Adran Masnach a Diwydiant.

Denise Bagge yw pennaeth y tîm sy'n gyfrifol am roi cyngor i'r llywodraeth ar ddyfodol rhwydwaith Swyddfa'r Post, a'r polisi ar gyfer y gwasanaeth post cyffredinol. Mae Denise hefyd yn gyfrifol am faterion Ewropeaidd a rhyngwladol ac am strategaeth gyfathrebu Postcomm.

Mike Turnbull yw cyfarwyddwr gweithrediadau dros dro Postcomm, ac mae'n gyfrifol am faterion gweinyddol yn cynnwys personél, hyfforddiant, cyllid a chynllunio busnes, rheoli rhaglenni, caffael, TG, gwasanaethau swyddfa a swyddfeydd. Gadawodd Nancy Holloway, cyn-gyfarwyddwr gweithrediadau Postcomm ei swydd yn Postcomm ym mis Mawrth 2005.

Ers diwedd y flwyddyn penodwyd dau arall i'r bwrdd gweithredol, sef:

Fran Gillon, cyfarwyddwr diogelu cwsmeriaid, a fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth Post Brenhinol â'i rwymedigaethau i gwsmeriaid, y modd y mae Post Brenhinol yn darparu gwasanaeth cyffredinol dibynadwy, ansawdd ei wasanaeth ac ymchwilio i gwynion ynglŷn ag ymddygiad gwrth-gystadleuol.

Andrew Starkey, cyfarwyddwr seilwaith y farchnad, a fydd yn brif bwynt cyswllt rhwng Postcomm a'i randdeiliaid niferus yn y farchnad gystadleuol. Bydd hefyd yn gyfrifol am drwyddedu a monitro cwmnïau sy'n newydd i'r farchnad bost, y trefniadau ar gyfer marchnad lle ceir gweithredwyr amrywiol ac ymchwilio i droseddau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Post.

Proffil o'r farchnad

Roedd gwerth marchnad bost y DU dros £7bn yn 2004 a bu'n tyfu ar gyfradd o tua 2% y flwyddyn yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf; mae'r sector trwyddedu yn cynrychioli tua 67% o'r farchnad hon.

Busnesau sy'n anfon tua 86% o'r holl bost ym marchnad bost drwyddedig y DU; mae tua 58% yn cael eu hanfon gan fusnesau i ddefnyddwyr (B2C); a thua 28% gan fusnesau i fusnesau (B2B). Mae defnyddwyr yn postio tua 14% o eitemau post: tua 9% i gartrefi eraill (C2C) a thua 5% i fusnesau (C2B).

Mae'r farchnad lythyrau gyfan (ar gyfer y maes trwyddedig) wedi parhau i dyfu, gan gynrychioli 19.3bn o eitemau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004, sy'n cael ei lywio yn bennaf gan y cynnydd o 2% yn symiau post Post Brenhinol ar gyfer 2002/03.

Mynediad i'r farchnad hyd yma

Ers cyflwyno cystadleuaeth, mae gweithredwyr newydd wedi targedu marchnadoedd arbenigol a gwasanaethau gwerth ychwanegol i gwsmeriaid busnes. Mae'r tabl yn rhoi crynodeb o'r gwasanaethau y mae gweithredwyr newydd yn eu cynnig ar hyn o bryd yn y maes trwyddedig. Mae naw gweithredwr amgen yn gweithredu yn y farchnad erbyn hyn.

Mae nifer o gwmnïau wedi llofnodi trefniadau mynediad gyda Post Brenhinol erbyn hyn. Mae mynediad yn galluogi gweithredwyr amgen i gystadlu â phrif weithgareddau Post Brenhinol (casglu, didoli a thryncio) ac yna mynediad i rwydwaith Swyddfa'r Post ar gyfer y broses dosbarthu olaf. UK Mail oedd y cwmni cyntaf i gytuno ar drefniadau mynediad i'r farchnad gyda Post Brenhinol, gan gynnig gwasanaeth dosbarthu post dau ddiwrnod a gwasanaeth olrhain hyd at y pwynt o drosglwyddo i Post Brenhinol. Mae pum cwmni arall wedi llofnodi cytundebau mynediad gyda Post Brenhinol ers hynny.

Gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan weithredwyr newydd yn y maes trwyddedig

	Gwasanaethau'r Ystafell Bost	Post crynswth a brosesir o'r dechrau i'r diwedd	Atgyfnerthu	Gwasanaeth cyfnedwid digfennau gwell	B2B wedi'i Orlhain	Post trwyddedig arall
AMP		I				
DHL Global Mail			I			
Express		I				
DX Network Services		I		I	I	
Securicor	I					
Speedmail	I	I	I		I	I
TNT (LTSB & RBS)	I					
TNT Mail (TPG)			I			
UK Mail			I			

Nodiadau: Mae Securicor (sy'n gweithredu bellach fel DHL) a Speedmail yn is-gwmnïau sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Deutsche Post Global Mail UK. Mae TNT Mail yn is-gwmni sy'n eiddo'n gyfan gwbl i TPG.

Ffynhonnell: Postcomm

Symiau o bost a brosesir o'r dechrau i'r diwedd

Mae'r symiau y mae gweithredwyr newydd yn eu cludo yn parhau i gynyddu, gan gynrychioli 57m o eitemau yn 2003/04, o gymharu â 51m o eitemau yn 2002/03. Yn gyffredinol, mae Post Brenhinol yn parhau i lywodraethu'r gwasanaethau post, gan gynrychioli cyfran o'r farchnad sy'n fwy na 99% yn ôl ffigurau 2003/04.

Symiau gweithredwyr llythyrau a brosesir o'r dechrau i'r diwedd (maes trwyddedig) 2002/03 i 2004/05 (hyd ddiwedd y flwyddyn, sef 31ain Mawrth)

Gweithredwr	Symiau llythyrau a brosesir o'r dechrau i'r diwedd (m eitemau) ¹		
	2002/03	2003/04	2004/05 ²
Post Brenhinol ³	18,865	19,216	19,600
Symiau a brosesir o'r dechrau i'r diwedd gweithredwyr ac eithrio Post	51	57	76
Cyfanswm y farchnad o un lle i'r llall	18,916	19,273	19,676
Twf	-	1.9%	2.1%
Cyfran Post Brenhinol o'r farchnad	99.73%	99.70%	99.62%
Cyfran gweithredwyr ac eithrio Post Brenhinol o'r farchnad	0.27%	0.30%	0.38%

Nodiadau:

¹ Ac eithrio symiau a brosesir ar sail mynediad.

² Yn seiliedig ar ragolwg Postcomm ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol.

³ Caiff y ffigurau hyn eu cyfrifo o ddata sy'n seiliedig ar refeniw a dderbynnir bob mis gan Post Brenhinol sy'n cwmpasu 'UK Mails'. Mae Post Brenhinol yn diffinio 'UK Mails' fel pob llythyr, Special Delivery a gwasanaethau parseli y

mae Post Brenhinol yn diffinio eu bod yn cael eu darparu o dan yr USO ac archebion drwy'r post sy'n cael eu dychwelyd (nid yw hyn yn cynnwys traffig USO rhyngwladol). Mae symiau sy'n cael eu hawdurdodi neu sy'n ofynnol gan drwydded Post Brenhinol yn cynrychioli tua 96.5% o 'UK Mails'. Caiff y ffigurau eu haddasu i adlewyrchu hyn.

Ffynhonnell: Postcomm

Symiau o bost a brosesir ar sail mynediad a chydgrynhoi

Rhagwelodd gweithredwyr gyfanswm o 111m o eitemau a brosesir ar sail cydgrynhoi yn 2004/05 (o gymharu â 76m o eitemau a brosesir o'r dechrau i'r diwedd).

Os tybir bod symiau a brosesir ar sail mynediad yn cynrychioli 50% o un eitem bost gyfan (gan adlewyrchu'r rhaniad cyffredinol rhwng y prif weithgareddau a'r gweithgareddau ymylol), yna roedd symiau a brosesir ar sail mynediad a symiau a brosesir o'r dechrau i'r diwedd, gyda'i gilydd, ac wedi'u darparu gan weithredwyr ar wahân i Post Brenhinol yn cynrychioli tua 132m o eitemau yn 2004/05. Mae hyn yn gyfwerth â 0.66% o gyfanswm y farchnad wedi'i rheoleiddio (gyda symiau a brosesir o'r dechrau i'r diwedd a symiau a brosesir ar sail mynediad wedi'u cyfuno).

Refeniw'r farchnad

At ei gilydd, cynyddodd refeniw Post Brenhinol 5.4% yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004. Ysgogwyd hyn gan gynnydd yn y tariff ym mis Mai 2003, a chynnydd o 1.6% mewn post a brosesir.

Profodd y gweithredwyr newydd gynnydd o 12% mewn refeniw post yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004, gan adlewyrchu'r twf yn y post a brosesir, o ystyried bod eu refeniw fesul uned ar gyfartaledd wedi gostwng, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd refeniw gweithredwyr newydd yn cynrychioli £14m (0.3% o gyfanswm y farchnad) yn 2003/04.

Y Farchnad Llythyrau (maes trwyddedig) yn ôl refeniw (£m)

	2002/03	2003/04
Post Brenhinol ¹	4,417	4,655
Newid	-	5.4%
Gweithredwyr ar wahân i Post	12	14

Brenhinol		
Newid	-	11.5%
Cyfanswm y farchnad	4,430	4,669
Newid	-	5.4%
Cyfran Post Brenhinol o'r farchnad	99.72%	99.71%
Cyfran gweithredwyr ar wahân i Post Brenhinol o'r farchnad	0.28%	0.29%

¹ Amcangyfrifon yw'r ffigurau refeniw hyn ac maent yn deillio o ddata a dderbyniwyd gan Post Brenhinol sy'n cwmpasu 'UK Mails'. Mae Post Brenhinol yn diffinio 'UK Mails' fel pob llythyr, Special Delivery a gwasanaethau parseli y mae Post Brenhinol yn diffinio eu bod yn cael eu darparu o dan yr USO ac archebion drwy'r post sy'n cael eu dychwelyd (nid yw hyn yn cynnwys traffig USO rhyngwladol). Mae symiau trwyddedig yn cynrychioli tua 79.4% o 'UK Mails'. Caiff y ffigurau eu haddasu i adlewyrchu hyn.

Ffynhonnell: Postcomm

Hyrwyddo cystadleuaeth gynaliadwy, effeithiol

Mae Postcomm yn credu y cyflawnir cystadleuaeth gynaliadwy, effeithiol:

- os bydd dewisiadau credadwy i gwsmeriaid
- os bydd cystadleuaeth deg i gystadleuwyr gan sicrhau bod yr holl rwystrau mynediad allweddol wedi'u datrys
- os na fydd Post Brenhinol yn camddefnyddio ei rym yn y farchnad
- os bydd cystadleuaeth wirioneddol (heb gael ei bygwth) a fydd yn gallu helpu i ddylanwadu ar effeithlonrwydd, prisiau sy'n adlewyrchu costau ac arloesedd o ran cynnyrch a phrosesau
- os bydd cystadleuaeth sy'n seiliedig ar gynigion busnes hirdymor credadwy.

Agor y farchnad yn llwyr ynghynt na'r disgwyl

Caiff gwasanaethau post Prydain eu rhyddfrydoli'n llwyr o 1 Ionawr 2006 – bymtheg mis yn gynharach na'r bwriad gwreiddiol – gan ddiddymu'r monopoli y mae Post Brenhinol wedi'i fwynhau ers mwy na 350 mlynedd. Gwnaed penderfyniad Postcomm, a gyhoeddwyd ar 18 Chwefror 2005, yn dilyn tri mis o ymgynghori. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod o blaid agor y farchnad yn llwyr yn gynharach na'r bwriad.

Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai'r farchnad yn cael ei hagor yn llwyr ym mis Ebrill 2007. Pan gynigiwyd hynny, yn 2002, roedd Post Brenhinol – Consignia bryd hynny – yn colli £1 filiwn y dydd ar gyfanswm ei fusnes ac roedd yn bwriadu cyflwyno cynllun adnewyddu tair blynedd.

Ers hynny mae'r sefyllfa wedi gwella'n aruthrol. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2005, llwyddodd Post Brenhinol i sicrhau elw o £537 miliwn o'i weithrediadau, a gwnaeth daliadau 'cyfran o lwyddiant' o £1,074 i bob un o'i gyflogeion cymwys. Mae'r cwmni yn parhau i lywodraethu marchnad llythyrau drwyddedig y DU gyda chyfran o'r farchnad sy'n fwy na 99%. Mae trosiant blyneddol y rhan honno o'i weithrediadau y rheolir ei phrisiau gan Postcomm bron yn £6 biliwn.

Mae penderfyniad Postcomm i agor y farchnad yn golygu, o 1 Ionawr 2006, y bydd y gweithredwyr hynny sy'n cael eu trwyddedu gan Postcomm yn gallu casglu a dosbarthu unrhyw eitemau post, o lythyrau unigol i bost crynswth, mewn cystadleuaeth â Post Brenhinol. Byddant yn gallu gosod blychau casglu, darparu gwasanaeth casglu a dosbarthu rhwng busnesau, cynnig gwasanaethau post wedi'u holrhain neu wasanaeth dosbarthu post ar amseroedd gwarantiedig a llawer mwy, yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen ar gwsmeriaid.

Trwyddedu marchnad cwbl agored

Ochr yn ochr ag agor y farchnad yn llwyr caiff fframwaith trwyddedu diwygiedig ei gyflwyno. Ym mis Tachwedd 2004, dechreuodd Postcomm

ymgyngori ar system drwyddedu a fyddai'n annog mynediad i'r farchnad tra'n darparu camau digonol i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid ac ennyn eu hyder yn y farchnad gystadleuol.

Cynigiodd Postcomm ddau god gorfodol – cod ymarfer ar integredd y gwasanaeth post, a chod ar weithdrefnau gweithredu cyffredin.

Mae'r cod arfaethedig ar integredd y gwasanaeth post yn cynnwys rheolau ar ddiogelwch post, mae'n nodi gweithdrefnau i'w dilyn os bydd rhywun yn ymyrryd â'r post, mae'n darparu rheolau ar ddewis staff a hyfforddiant ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ystadegau gael eu casglu er mwyn galluogi eraill i fesur perfformiad trwyddedigion.

Byddai'r cod ar weithdrefnau gweithredu cyffredin yn ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni post gydweithio'n effeithiol pan fyddai angen iddynt ryngweithio â'i gilydd ar gyfer anfon post ymlaen pan fydd pobl wedi newid cyfeiriad a delio â phost sy'n cael ei ddychwelyd i'r sawl a'i anfonodd.

Mae'n rhaid i Post Brenhinol – fel y cwmni amlycaf – gyhoeddi ei berfformiad yn erbyn targedau gwasanaeth penodol, ond bydd cystadleuwyr yn gallu pennu eu targedau eu hunain, a bydd y farchnad yn penderfynu ar lefel eu llwyddiant: bydd methiannau cwmnïau sy'n perfformio'n wael yn cael eu hadlewyrchu yn eu perfformiad ariannol.

Oherwydd bod Postcomm yn credu y bydd lle i weithredwyr post bach, sy'n darparu gwasanaethau dosbarthu lleol o bosibl, yn y farchnad, mae'r cynigion yn darparu ar gyfer pennu ffioedd trwydded is ar gyfer cwmnïau â throsiant blynyddol sy'n llai na £100,000. Hefyd, mae Postcomm wrthi'n datblygu system drwyddedu symlach ar gyfer gweithredwyr bach.

Rhwystrau i fynediad

Mae gan Post Brenhinol nifer o freintiau a etifeddodd o'r cyfnod hwnnw pan mai ef oedd yr unig weithredwr post cenedlaethol. Mae'r breintiau hyn yn cynnwys eithriad rhag cyfyngiadau parcio wrth gasglu post o flychau post ac eithriad rhag Treth Ar Werth (TAW).

Mewn adolygiad o'r farchnad gystadleuol, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2004, gofynnodd Postcomm am sylwadau ar y breintiau hyn. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai'r ffaith bod Post Brenhinol yn cael ei eithrio rhag TAW, sy'n rhoi mantais gystadleuol i'r cwmni o tua 50% o'r farchnad bost, yw'r prif rwystr o ran mynediad.

Mater i'r llywodraeth yw polisi ar TAW, nid mater i Postcomm. Fodd bynnag, mae Postcomm yn gobeithio gweithio gyda'r llywodraeth i ganfod ateb sy'n sicrhau y caiff pob gweithredwr post ei drin yn gyfartal o ran TAW ac nad yw'n cynyddu pris stampiau yn sylweddol. Mae Postcomm wedi cynghori'r llywodraeth y byddai pennu cyfradd unffurf o 5% ar gyfer gwasanaethau post yn cyflawni hyn.

Mae Postcomm wedi argymhell y dylid diddymu rhai o freintiau Post Brenhinol, yn cynnwys y pŵer i orfodi llongau neu awyrennau i gludo post. Fodd bynnag, dylid parhau i eithrio cerbydau Post Brenhinol rhag cyfyngiadau parcio wrth gasglu post o flychau post, oherwydd mae'n ofynnol i'r cwmni ddarparu gwasanaeth cyffredinol o un casgliad o bob blwch post a Swyddfa Bost ar bob diwrnod gwaith. Dylid trin Parcellforce, nad oes ganddo unrhyw rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol, fel pob cwmni parseli arall.

Canolbwyntio ar fesurau gwrth-gystadleuol

Mae Postcomm yn awyddus i sicrhau nad yw Post Brenhinol – sydd â chyfran fwy na 99% o'r farchnad – yn defnyddio ei ddylanwad yn annheg, yn ddiafbybod o bosibl, er mwyn eithrio cystadleuwyr.

Ym mis Ionawr 2005, cytunodd Post Brenhinol i dynhau ei weithdrefnau cydymffurfiaeth mewnol yn dilyn ymchwiliad gan Postcomm i honiadau bod dau o gynlluniau hyrwyddo'r cwmni yn wrth-gystadleuol. Cynlluniwyd y cynlluniau hyn gan Post Brenhinol i annog cwsmeriaid i ddefnyddio'r gwasanaeth post fel rhan o'u gweithgareddau marchnata. Honnodd gweithredwr post arall bod y cwmni, drwy annog cwsmeriaid i ddefnyddio Post Brenhinol, yn bwriadu dileu cystadleuaeth o'r farchnad.

Daeth ymchwiliad Postcomm i'r casgliad bod Post Brenhinol wedi torri dau o amodau ei drwydded a gynlluniwyd i hwyluso cystadleuaeth.

Ym mis Ionawr 2005 cyhoeddodd Postcomm ymchwiliad i gynnis Post Brenhinol o brisiau fesul ardal ar fynediad i weithgareddau ymylol. Mae'r ymchwiliad hwn yn dilyn cwynion gan dri gweithredwr trwyddedig sy'n honni bod y cynnis hwn yn wrth-gystadleuol.

Diogelu buddiannau cwsmeriaid

Ymhlith mentrau Postcomm i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid mae:

- parhau i adolygu a diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol, gan ystyried anghenion newidiol defnyddwyr a'r mathau o wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y farchnad
- rheoleiddio Post Brenhinol (yn y meysydd hynny y mae'n parhau i'w llywodraethu) er mwyn diogelu anghenion cwsmeriaid 'caeth', yn arbennig grwpiau diamddiffyn
- mesurau ansawdd gwasanaeth priodol gyda threfniadau cymell a gorfodi priodol yn cynnwys iawndal i gwsmeriaid nad ydynt wedi derbyn gwasanaeth o'r ansawdd y maent wedi talu amdano
- rheolaethau prisio ar gyfer cynnyrch perthnasol Post Brenhinol sy'n adlewyrchu diffyg dewis cwsmeriaid ac sy'n darparu cymhellion i hyrwyddo effeithlonrwydd a buddsoddiad
- prosesau i ddelio â bwriad Post Brenhinol i symud tuag at brisiau sy'n adlewyrchu costau yn well a gwell effeithlonrwydd sy'n gwerthuso ac yn rheoli eu heffaith ar grwpiau cwsmeriaid.

Gwasanaeth cyffredinol

Yn dilyn adolygiad a barhaodd am flwyddyn, diffiniodd Postcomm bum maes gwasanaeth ym mis Mehefin 2004, a oedd yn cael eu cynnig gan Post Brenhinol, y bydd yn rhaid i'r cwmni eu darparu fel y gwasanaeth post cyffredinol am bris cyfradd unffurf fforddiadwy.

Y pum gwasanaeth yw:

- **Gwasanaethau blaenoriaeth a gwasanaethau nad ydynt yn rhoi blaenoriaeth (llythyrau a phecynnau) hyd at 2 cilo – Gwasanaethau post dosbarth 1af ac ail ddosbarth a gwasanaethau post crynswth Post Brenhinol**
- **Gwasanaeth parseli nad oes blaenoriaeth iddynt hyd at 20 cilo – Gwasanaeth parseli safonol Post Brenhinol**
- **Gwasanaeth cofrestredig ac yswiriedig – cynnyrch Special Delivery (diwrnod canlynol) a Recorded (llofnodi ar eu cyfer) Post Brenhinol**
- **Ystod o wasanaethau cymorth i sicrhau diogelwch ac integreidd eitemau post – casgliadau Ail-gyfeirio (hyd at 12 mis), Keepsafe, Post Restante, Tystysgrif Postio a Busnes Post Brenhinol**
- **Gwasanaeth rhyngwladol anfon o'r DU - cynnyrch Rhyngwladol tariff cyhoeddus a chynnyrch Rhyngwladol y llofnodir ar eu cyfer. Mae'r DU hefyd yn ddarostyngedig i ofynion yr Undeb Post Rhyngwladol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth dosbarthu post rhyngwladol sy'n cael ei anfon i'r DU.**

Gwnaed penderfyniad o ran pa gynnyrch post crynswth a chynnyrch mynediad Post Brenhinol y dylid ei ddarparu fel gwasanaeth cyffredinol ym mis Mehefin 2005. Penderfynodd Postcomm y byddai darparu *Mailsort1400*

(dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth) a *Cleanmail* (dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth) yn diwallu rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol Post Brenhinol.

Rheoli prisiau

Bydd prisiau a gweithdrefnau rheoli ansawdd gwasanaeth Post Brenhinol yn cael eu hadnewyddu ym mis Ebrill 2006. Ym mis Medi 2004, cyhoeddodd Postcomm ei sylwadau cychwynnol ar strwythur y rheolaeth nesaf a allai gwmpasu cyfnod o bum mlynedd, ar yr amod y gall Post Brenhinol ddarparu gwybodaeth sy'n ddigon cadarn.

Mae Postcomm yn rhagweld fframwaith a fydd yn galluogi i'r broses o reoleiddio Post Brenhinol gael ei llacio'n raddol wrth i gystadleuaeth wirioneddol ddatblygu. Byddai Post Brenhinol yn parhau i gynnal unrhyw fudd sy'n deillio o'r ffaith bod ei symiau post yn parhau i gynyddu, ond byddai'n rhaid iddo rannu buddiannau yn sgîl gwelliannau effeithlonrwydd gyda chwsmeriaid.

O ystyried ansawdd gwael gwasanaeth Post Brenhinol yn 2003/2004 pan na lwyddodd i gyflawni pob un o'r 15 targed gwasanaeth, mae Postcomm yn bwriadu atgyfnerthu cymhellion y cwmni i gyflawni'r targedau hyn.

Prisio yn seiliedig ar faint

Ym mis Ebrill 2004 dechreuodd Postcomm ymgynghori ar gynigion gan Post Brenhinol i newid y ffordd y mae'n pennu prisiau ar gyfer llythyrau a pheccynnau er mwyn ystyried maint yr eitem.

Hyd yma mae llythyrau a pheccynnau wedi cael eu prisio ar sail eu pwysau yn unig, ond dywedodd Post Brenhinol ei bod yn fwy costus didoli, trin a dosbarthu amlenni a pheccynnau mawr. Roedd hyn yn golygu bod eitemau ysgafn ond swmpus yn cael eu prisio'n is na'r gost, tra bod eitemau trymach yn dueddol o gael eu gorbrisio. Roedd Post Brenhinol am newid ei brisiau er mwyn adlewyrchu ei gostau yn well.

Byddai cynigion cychwynnol y cwmni wedi golygu cynnydd sylweddol mewn prisiau postio ar gyfer eitemau megis cardiau cyfarch mawr, posteri mewn tiwbiau a phost sy'n cynnwys eitemau swmpus megis cryno ddisgiau, ffilmiau ffotograffig, cetris argraffu a thapiau fideo. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn rhatach postio eitemau post trymach megis catalogau, llyfrynau, adroddiadau cwmni a rhai llyfrau.

Bwriad y cynigion oedd sicrhau sefyllfa niwtral o ran refeniw - gyda'r cynnydd ar gyfer eitemau post ysgafn ond swmpus yn cael ei wrthbwysu gan ostyngiad ar gyfer eitemau trymach. Cynhyrchodd Postcomm daflen, ar y cyd â Postwatch, y corff defnyddwyr, o'r enw *Does size matter to you?* a gafodd ei dosbarthu i bartïon â diddordeb.

Denodd ymgynghoriad Postcomm fwy na 10,000 o ymatebion, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrthwynebu'r cynigion. Nid oeddem yn argyhoeddedig bod

cynigion Post Brenhinol yn adlewyrchu ei gostau yn gywir, a chynhaliwyd trafodaethau pellach gyda Post Brenhinol.

Arweiniodd hyn at ail gyfres o gynigion gan Post Brenhinol, a oedd, ar ôl cael eu profi gan Postcomm, yn adlewyrchu costau yn briodol. O ganlyniad, mae Postcomm yn bwriadu eu derbyn, ond mae'n ymgynghori ymhellach gyda phartïon â diddordeb cyn gwneud penderfyniad terfynol. Y dyddiad cynharaf y gellid cyflwyno'r prisiau yn seiliedig ar faint fyddai mis Ebrill 2006.

Ansawdd gwasanaeth Post Brenhinol

Ni lwyddodd Post Brenhinol i gyflawni unrhyw un o'i 15 prif darged ansawdd gwasanaeth yn 2003-04, ac o ganlyniad mae wedi talu £60 miliwn o iawndal uniongyrchol ac anuniongyrchol i gwsmeriaid o dan gynlluniau a gynlluniwyd gan Postcomm.

Yng ngoleuni'r taliadau iawndal - a nifer o fesurau eraill y cytunodd Post Brenhinol arnynt - penderfynodd Postcomm na fyddai'n gosod unrhyw gosbau ariannol pellach ar y cwmni. Roedd y penderfyniad hwn yn ystyried diffygion difrifol ym mherfformiad Post Brenhinol yn ystod y cyfnod, ond hefyd y camau gweithredu helaeth ac effeithiol yr oedd wedi'u cymryd yn dilyn hynny i unioni'r diffygion hynny. Bydd ymestyn termau credyd Post Brenhinol ar gyfer cwsmeriaid busnes o 21 diwrnod i 30 diwrnod yn gwella unrhyw hawliadau iawndal yn 2005/06.

Mae uwch reolwyr Post Brenhinol bellach yn ystyried ansawdd gwasanaeth fel prif flaenoriaeth y cwmni. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y gwasanaeth yn ystod y naw mis diwethaf, er bod Post Brenhinol a Postcomm yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud.

Mae Post Brenhinol wedi addo y bydd yn darparu rhagor o wybodaeth mewn ffordd fwy amserol er mwyn galluogi Postcomm i fonitro perfformiad yn ystod y flwyddyn. Bydd Post Brenhinol hefyd yn cynnal gwaith ymchwil pellach i ganfod ffyrdd i atgyfnerthu ei systemau ar gyfer nodi problemau a delio â hwy wrth iddynt godi.

Mae addewid Post Brenhinol i ymestyn ei dermau credyd ar gyfer cwsmeriaid o 21 diwrnod i 30 diwrnod yn golygu y bydd y cwmni'n gweithredu yn unol ag arferion masnachol arferol. Roedd y termau credyd 21 diwrnod yn golygu nad oedd rhai cwsmeriaid busnes yn gallu cael iawndal oherwydd y barnwyd nadd oedd eu cofnod taliadau o fewn termau arferol Post Brenhinol.

Gorfodaeth

Ym mis Tachwedd 2004 llwyddodd Postcomm i erlyn cwmni a oedd wedi casglu a dosbarthu post heb drwydded. Roedd hyn yn dilyn cwynion niferus a gyflwynwyd i Postcomm ac ymdrechion rheolaidd Postcomm i ddarbwylllo'r cwmni i wneud cais am drwydded a chynnal ei weithgareddau o fewn y cwmpas a ganiateir, rhywbeth a wrthodwyd gan y cwmni. Cafodd y cwmni,

Deltec International Courier Ltd, a'i reolwr gyfarwyddwr, ddirwy o £17,000 yn ogystal â £60,000 o gostau yn Llys Ynadon Bow Street, Llundain.

Cafwyd Deltec yn euog o bob un o'r 11 cyhuddiad y cafodd ei gyhuddo ohonynt o dan Adran 6 Deddf Gwasanaethau Post 2000 am ddsbarthu llythyrau heb drwydded. Cafwyd Barry Ellis, y rheolwr gyfarwyddwr, yn euog o bob un o'r 11 cyhuddiad o dan Adran 120 y Ddeddf am gydgyllwynio troseddau'r cwmni, am gydsynio i'r troseddau hynny neu am fod yn esgeulus o ran y troseddau hynny.

Dywedodd Postcomm wrth y llys ei fod wedi hysbysu Deltec ar sawl achlysur bod angen trwydded arno ond ei fod wedi dewis gweithredu y tu hwnt i'r gyfraith.

Ym mis Ionawr 2005 cyflwynodd Postcomm ei erlyniad cyntaf am waredu post o dan Adran 83 Deddf Gwasanaethau Post 2000, sy'n golygu bod ymyrryd ag eitemau post yn drosedd cyfreithiol. Roedd yr achos llys, a gynhaliwyd yn Llys Ynadon Nottingham, yn dilyn ymchwiliad gan Postcomm i weithgareddau gwaredu post anghyfreithlon cyflogai achlysurol a oedd yn gweithio i gwmni dosbarthu post trwyddedig. Plediodd y diffynnydd yn euog i'r cyhuddiad ac fe'i dedfrydwyd i 40 awr o wasanaeth cymunedol ac fe'i gorchmynnwyd i dalu £1,000 tuag at y costau.

Rhydd Postcomm flaenoriaeth uchel i integredd post ac mae'n parhau i ymchwilio i droseddau o'r fath ac i rybuddio neu erlyn troseddwr yn unol â'i bolisi erlyn.

Rheolaeth Post Brenhinol o'r PAF

Crëwyd Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y DU (PAF) sy'n rhestru pob cyfeiriad post yn y DU, yn wreiddiol gan Post Brenhinol er mwyn cyflymu ei broses ddsbarthu. Erbyn hyn, mae ar gael ar drwydded i lawer o ddefnyddwyr eraill megis cwmnïau yswiriant, banciau, adrannau'r llywodraeth a'i gystadleuwyr.

Ym mis Mehefin 2004 dechreuodd Postcomm ar ymgynghoriad a fyddai'n parhau am 3 mis fel rhan o adolygiad o'r ffordd yr oedd y PAF yn cael ei rheoli. Prif amcanion yr adolygiad yw:

- asesu perfformiad Post Brenhinol yn erbyn ei rwymedigaethau statudol
- sicrhau nad yw'r broses o reoli PAF yn gweithredu fel rhwystr i gystadleuaeth bost effeithiol
- sicrhau bod y strwythur ar gyfer rheoli PAF yn gweithredu er budd defnyddwyr.

Mae Postcomm yn bwriadu cyhoeddi ei adolygiad yn ddiweddarach yn ystod 2005.

Drylliau yn y post

Dechreuodd Postcomm ymgynghori ym mis Rhagfyr 2004 ar gais Post Brenhinol i wahardd drylliau rhag cael eu cludo yn y post. Mae'r cwmni yn awyddus i'r gwaharddiad fod yn berthnasol i ddosbarthu drylliau chwaraeon, drylliau wedi'u dad-actifadu ac atgynrychiadau o ddrylliau, bwledi a magnelau a anfonir drwy lythyr, special delivery a recorded delivery a'r gwasanaeth parseli safonol. Byddai Parcelforce a chwmnïau parseli safonol eraill – sy'n cofnodi enwau a chyfeiriadau pobl sy'n anfon parseli o'r fath – yn parhau i gludo drylliau.

Yn ystod cyfnod o 12 mis, roedd ffigurau a gasglwyd gan Post Brenhinol yn dangos ei fod wedi cludo 352 o ddrylliau a 254 o eitemau a oedd yn cynnwys bwledi. Canfuwyd llawer o'r eitemau hyn o ganlyniad i'r ffaith bod Post Brenhinol yn gwneud mwy o ddefnydd o awyrennau ar gyfer dosbarthu post, lle mae pob eitem yn cael ei rhoi drwy beiriant pelydr X.

Mae Postcomm yn bwriadu cyhoeddi ei ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod haf 2005.

Rhwydwaith Swyddfa'r Post

Mae Postcomm yn darparu gwybodaeth ac adroddiad blynyddol i'r llywodraeth ar y rhwydwaith Swyddfa'r Post. Dylai hyn sicrhau:

- bod y llywodraeth yn derbyn cyngor clir ar ddatblygiadau a rôl y rhwydwaith a sut i'w ariannu
- bod y ffocws ar fynediad i wasanaethau, yn hytrach na nifer y swyddfeydd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol
- bod y ddarpariaeth gwasanaethau post yn ystyried anghenion grwpiau diamddiffyn a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell ac ardaloedd difreintiedig
- bod Post Brenhinol a gweithredwyr eraill yn defnyddio'r rhwydwaith Swyddfa'r Post i gynnig gwasanaethau post i gwsmeriaid.

Yn ei adroddiad blynyddol yn 2004 i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, dywedodd Postcomm fod Swyddfa'r Post Cyf yn gwneud cynnydd da gyda'r gwaith o ddatblygu potensial masnachol y rhwydwaith, ond bod cryn dipyn o waith i'w wneud eto cyn y gallai hyn wneud iawn am y cymorth ariannol parhaus a oedd yn cael ei ddarparu gan y llywodraeth. Roedd cynnyrch a gwasanaethau newydd yn gynhaliadaeth i lawer o swyddfeydd post, ond roedd y galw am y gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn annigonol mewn swyddfeydd post eraill.

Yn ôl yr adroddiad, gwelwyd y canlynol yn ystod y flwyddyn flaenorol:

- rhoddwyd y rhaglen aildyfeisio trefol ar waith yn ogystal â gwelliannau ar gyfer y Swyddfeydd Post trefol sy'n weddill er mwyn rhoi dyfodol mwy sicr iddynt
- cymorth ariannol i swyddfeydd Post mewn ardaloedd trefol difreintiedig
- datblygu cyfleusterau bancio ac ystod eang o gynnyrch a gwasanaethau newydd ar gyfer cwsmeriaid yng nghanhennau Swyddfa'r Post

- pryder cynyddol o ran dyfodol canghennau sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol
- ymestyn y pecyn ariannol ar gyfer y rhwydwaith gwledig er mwyn helpu i gynnal canghennau gwledig swyddfa'r post a chefnogi cynlluniau peilot a fyddai'n llywio cynlluniau tymor hwy y llywodraeth.

Roedd adroddiad Postcomm yn croesawu'r camau mawr a gymerwyd i gynnig cynnyrch a gwasanaethau newydd a fyddai'n gwneud Swyddfeydd Post yn fwy deniadol i gwsmeriaid. Ein prif bryder oedd p'un a fyddai'r cynnyrch a'r gwasanaethau newydd hyn yn darparu bywoliaeth hyfyw i is-bostfeistri, yn arbennig mewn rhai ardaloedd difreintiedig. Mae Postcomm yn bwriadu monitro'r mater hwn yn ofalus.

Croesawodd Postcomm benderfyniad y llywodraeth ym mis Medi i gynnal y pecyn cymorth ariannol ar gyfer Swyddfeydd Post gwledig hyd at 2008 a chroesawodd hefyd ymrwymiad y llywodraeth i dreialu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post i gwsmeriaid mewn cymunedau gwledig a datblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y rhwydwaith.

Fel rhan o'i Adolygiad o'r Farchnad Gystadleuol, a gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2005, bydd Postcomm yn archwilio'r contract unigryw rhwng Swyddfeydd Post a Post Brenhinol a'r cyfleoedd i Swyddfeydd Post ddarparu gwasanaethau i gystadleuwyr Post Brenhinol.

Yn ogystal ag amlygu datblygiadau allweddol ar draws y rhwydwaith Swyddfa'r Post yn 2003/04, roedd yr adroddiad hefyd yn diweddarau ystadegau am y rhwydwaith. Gwelwyd gostyngiad o 1,278 yn nifer canghennau Swyddfa'r Post yn 2003/04 - cynnydd sylweddol yn nifer y canghennau sy'n cau o gymharu â 2002/03 o ganlyniad i'r nifer arfaethedig o ganghennau a fyddai'n cau yn sgîl y rhaglen ailddyfeisio trefol (149 gwledig, 1,129 trefol). Dywedodd bron naw allan o bob deg o bobl (88%) bod y Swyddfa Bost yn bwysig i'r gymuned a dywedodd 96% o'r boblogaeth eu bod yn ymddiried yn Swyddfa'r Post. O'r nifer o ganghennau gwledig a oedd wedi newid dwylo, roedd gan 60% incwm blynyddol o lai na £20,000 am ddarparu gwasanaethau Swyddfa'r Post.

Mae Postcomm hefyd yn cynnal gwaith ymchwil ar effeithiau'r rhaglen ailddyfeisio trefol a'i heffaith ar gwsmeriaid ac is-bostfeistri ac ar hyfywedd cyffredinol y rhwydwaith. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn ystyried effaith talu budd-daliadau a phensiynau yn uniongyrchol i mewn i gyfrifon banc pobl, a chyflwyno cynnyrch newydd. Dechreuwyd ar y gwaith hwn ym mis Chwefror 2005.

Creu cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid

Mae ein rhanddeiliaid yn cynnwys cwsmeriaid post amlwg, diwydiannau cyflenwi, gweithredwyr, grwpiau cynrychioli busnesau bach, cymdeithasau masnach, undebau llafur, grwpiau cynrychioli cwsmeriaid domestig, grwpiau cwsmeriaid diamddiffyn, adrannau eraill y llywodraeth, grwpiau seneddol a Postwatch, y corff defnyddwyr.

Ein nod yw creu, cynnal a chefnogi cydberthnasau cryf gyda phob un o'r rhanddeiliaid hyn drwy broses gyfathrebu effeithiol a rhagweithiol a thrwy rannu gwybodaeth.

Nid yw Postcomm wedi ceisio creu proffil cyhoeddus uchel. Hyd yn hyn, mae wedi sefydlu proffil isel ond sy'n gynyddol gadarnhaol o ran cysylltiadau allanol a'r cyfryngau sy'n canolbwyntio ar faterion a phenderfyniadau penodol wrth iddynt godi.

Fodd bynnag, ers y cytundebau mynediad cyntaf, mae prif ffocws gwaith Postcomm wedi newid o lunio polisiau i helpu i gyflawni polisiau. Mae cyflwyno cystadleuaeth yn llwyddiannus yn golygu bod angen i ni ymdrechu'n galetach i gyfleu ein neges a chasglu adborth gan randdeiliaid perthnasol a - lle y bo'n briodol - sicrhau mwy o gyswllt gyda'r cyfryngau.

O ganlyniad i'r ffaith bod post busnes yn cynrychioli bron 90 y cant o'r holl bost sy'n cael ei anfon, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ein hymdrechion cychwynnol ar ddefnyddwyr post amlwg, a phenderfynwyd na fyddai ein polisi blaenorol o gynnal cyfarfodydd cyhoeddus - nad oeddent yn denu llawer o aelodau o'r cyhoedd - yn parhau.

Yn 2004 bu timau Postcomm yn ymweld â Belfast ac Armagh, Caeredin, Llanfair ym Muallt a Manceinion ar gyfer cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid. Yn ogystal, cynhaliodd Postcomm nifer o ddigwyddiadau i esbonio ei strategaeth ac i gael adborth gan randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys seminarau, ciniawau gyda gweithredwyr a defnyddwyr post amlwg, a chyfarfodydd cyswllt gyda chymdeithasau masnach a grwpiau defnyddwyr post Postwatch. Mae Postcomm hefyd yn cyhoeddi cylchlythyr chwarterol, *COMMENTary*, sydd ar gael am ddim ar ffurf copi wedi'i argraffu ac mae hefyd ar gael ar wefan Postcomm a gellir ei anfon drwy e-bost at randdeiliaid sydd wedi gwneud cais amdano.

Fforwm Llundain

Cynhaliwyd seminar cyntaf Postcomm, Fforwm Llundain, ar 9 Mehefin 2004. Yn y seminar hwn, amlinellwyd ein strategaeth ar gyfer rheoleiddio'r diwydiant post yn y dyfodol a gwahoddwyd safbwyntiau gan gyfranogwyr amlwg. Yn ogystal â chyflwyniadau gan uwch aelodau o staff Postcomm, ymhlith y siaradwyr eraill roedd Adam Crozier, prif weithredwr Post Brenhinol, a amlinellodd weledigaeth ei gwmmi ar gyfer y ffordd ymlaen, a David Kunz, cyfarwyddwr TPG Post, a roddodd safbwynt gweithredwr arall. Esboniodd Lorna Clarkson, cyfarwyddwr polisi prisio a pholisi masnachol Post Brenhinol, gynigion Post Brenhinol i gyflwyno prisiau yn seiliedig ar faint er mwyn cadw ei brisiau yn unol â'i gostau. Cododd Judith Donovan, cadeirydd Postwatch Gogledd Lloegr, faterion ynglŷn â'r effaith y gallai prisiau yn seiliedig ar faint ei chael ar gwsmeriaid.

Roedd mwy na 120 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y fforwm a chafwyd trafodaeth fywiog – yn arbennig ar brisiau yn seiliedig ar faint. Addasodd Post

Brenhinol ei gynigion prisiau yn seiliedig ar faint yn ddiweddarach, er mwyn ystyried nifer o faterion a godwyd yn y fforwm.

Fforwm Birmingham

Cynhaliodd Postcomm Fforwm Agor y Farchnad yn Birmingham yn dilyn Fforwm Llundain, ym mis Hydref 2004. Roedd y fforwm hwn wedi'i gynllunio ar gyfer gweithredwyr a chwsmeriaid ac roedd yn canolbwyntio ar gynigion Postcomm a gyflwynwyd fis yn gynharach - a oedd yn parhau i fod yn agored i ymgynghoriad - er mwyn symud y broses o agor y farchnad gwasanaethau post yn llwyr 15 mis ymlaen i 1 Ionawr 2005. Clywodd tua 60 o gynrychiolwyr syniadau cychwynnol Postcomm ar sut y byddai cyfundrefn drwyddedu ddiwygiedig yn gweithio mewn marchnad gystadleuol.

Seminar rheoli prisiau

Cyhoeddodd Postcomm ei ymgynghoriad ar strwythur rheoli prisiau nesaf Post Brenhinol ym mis Medi 2004 ac yna cynhaliwyd seminar rheoli prisiau yn Llundain ar 18 Tachwedd. Yn ogystal â siaradwyr Postcomm, clywodd y 105 o gynrychiolwyr safbwyntiau Post Brenhinol, Postwatch a gweithredwyr annibynnol.

Sefydliad sy'n dysgu

Mae Postcomm yn awyddus i fod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon, sydd â staff ymrwymedig sy'n llawn cymhelliant. Rydym hefyd yn awyddus i wella'n barhaus a chael ein hystyried 'ymhlith y gorau yn y maes' o gymharu â'n cymheiriaid a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn awyddus i ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu, sy'n ymrwymedig i ddysgu'n barhaus yn sgîl y penderfyniadau a wnawn a'n hymddygiad gweithredol. Mae bod yn sefydliad sy'n dysgu yn golygu bod yn ymatebol i newidiadau yn y farchnad ac i'n rhanddeiliaid yn ogystal â bod yn ymrwymedig ac ymatebol i'n staff. Yn arbennig, rydym yn ceisio:

- parhau i fod yn sefydliad bach o gymharu â rheoleiddwyr eraill ond gan sicrhau bod gennym aelodau o staff gwych sy'n cydweithio â'i gilydd ac sy'n cael cefnogaeth o ran eu gwaith a'u datblygiad personol;
- parhau i gynnal diwylliant cyfeillgar, cefnogol ac agored, er mwyn sicrhau bod staff ar bob lefel yn cynnig y syniadau gorau a'r atebion gorau i broblemau;
- sicrhau bod pob aelod o'n staff yn meddu ar yr offer, y dechnoleg, yr hyfforddiant a'r cymorth busnes ar gyfer eu swyddogaethau;
- dysgu'n barhaus o'n profiad o fusnes, ein marchnad a'n rhanddeiliaid, er mwyn i ni allu ymateb yn gyflym i ddiogelu anghenion cwsmeriaid a llunio a gweithredu'r polisïau cywir er mwyn creu marchnad bost ddeinamig yn y DU.

Staffio

Mae Postcomm yn recriwtio ar sail cystadleuaeth deg ac agored ac mae'n dethol ar sail teilyngdod, yn unol â'r Cod Recriwtio a grëwyd gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Cynhaliwyd gwiriadau mewnol ac allanol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod hwn.

Mae'r sefydliad yn parhau i ehangu er mwyn diwallu'r heriau niferus a wynebwn. O gymharu â'r cyfnod o fis Ebrill 2003 i fis Mawrth 2004 pan gafodd wyth aelod o staff eu recriwtio gan Postcomm, cafodd 20 aelod o staff eu recriwtio i swyddi newydd a swyddi gwag rhwng mis Ebrill 2004 a mis Mawrth 2005. Ar 31 Mawrth 2005, roedd Postcomm yn cyflogi 52 aelod o staff a 4 aelod o staff asiantaeth. Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.

	Dynion	Merched	Lleiafrifoedd Ethnig	Anabledd
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr	3	4	0	0
Aelodau Eraill o Staff	20	26	7	3
Staff Asiantaeth	0	4	1	0

Rheoli risg

Mae fframwaith Rheoli Risg (MoR) wedi'i ddatblygu a'i weithredu o fewn Postcomm. Bydd canolbwyntio ar y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chyflwyno prosiect neu raglen waith yn llwyddiannus yn gynnar yn ein helpu i fod yn fwy rhagweithiol wrth ystyried mesurau priodol i leihau'r risg. Drwy'r broses hon disgwylir i gyfarwyddwyr, rheolwyr prosiect a staff yn gyffredinol, ddatblygu dealltwriaeth well o'r risgiau y mae Postcomm yn eu hwynebu a'u heffaith ar amcanion busnes.

Rheoli rhaglenni a rheoli risg

Sefydlwyd swyddfa rhaglenni yn 2004/05 i gynnal gweithgareddau monitro a chynghori rhagweithiol ar bob agwedd ar brosiectau a rhaglenni, o ddiffinio gofynion a chyflwyno prosiectau i ddsbarthu a dwyn prosiectau i ben, gan ganolbwyntio ar gost, amserlenni ac ansawdd yr hyn rydym yn ei gyflawni. Gwneir hyn drwy broses gydweithio agos gyda chyfarwyddwyr a rheolwyr prosiectau i ddatblygu gwybodaeth well am y gwaith o gynllunio, monitro prosiectau a darparu adnoddau ar eu cyfer.

Cyllid

Ariennir Postcomm yn bennaf gan ffioedd trwydded sy'n cael eu talu gan Post Brenhinol, ond wrth i'r gystadleuaeth ddatblygu, bydd gweithredwyr eraill hefyd yn cyfrannu drwy eu ffioedd trwydded. Ceir crynodeb o'n cyllideb a'n halldro gwirioneddol ar gyfer 2004/05, o'i gymharu â'n halldro ar gyfer 2003/04, yn y tabl isod [**NODER: mae'r ffigurau hyn yn ddarostyngedig i archwiliad**]. Caiff ein cyfrifon statudol eu cyflwyno cyn y bydd y Senedd yn cau dros yr haf.

Er i'n cyllideb gynyddu yn ystod 2004/05 ar gyfer costau staff, y canlyniad oedd tanwariant oherwydd achosion anochel o oedi wrth lenwi swyddi newydd ar sail hirdymor. O ganlyniad, roedd yr alldro ar gyfer staff asiantaeth yn uwch na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer. Mae'r tanwariant ar ymgynghoriaeth yn adlewyrchu'r ffaith i waith ar y cod mynediad gael ei ohirio ac na wnaed penderfyniad mawr ar fynediad; ni ddefnyddiwyd yr arian wrth gefn ar gyfer adolygiad barnwrol posibl a gwariwyd llai na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer ar ymchwiliadau. Cafwyd gorwariant ar gostau rhedeg eraill o ganlyniad i gynydd mewn costau recriwtio wrth lenwi swyddi ychwanegol, cynnydd ychwanegol ym maes dysgu a datblygu, ac eitem eithriadol a oedd yn gysylltiedig â TAW.

	Alldro gwirioneddol 2003-04 £000	Cyllideb 2004-05 £000	Alldro Arfaethedig 2004-05 £000
Costau Staff	2,550	2,951	2,558
Staff asiantaeth	194	257	266
Costau rhedeg eraill	1,387	1,412	2,059
Yngynghoriaeth	2,031	5,100	3,839
Is-gyfanswm	6,162	9,720	8,722
Dibrisiant	325	400	346

Cost Cyfalaf	6	40	(23)
Cyfanswm	6,493	10,160	9,045
Cyfanswm cyfalaf	415	285	250

Yn ystod y flwyddyn creodd Postcomm gysylltiadau gydag Ofgem, a ddarparodd gymorth ac arbenigedd cyfrifo i dîm cyllid Postcomm. Ffurfiolwyd y cytundeb hwn o 1 Ebrill 2005 yn sgîl sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y ddau gorff. Un o ganlyniadau cadarnhaol y trefniant hwn yw bod Postcomm wedi gwella amseroedd cyhoeddi'r cyfrifon statudol. Ar gyfer y cyfrifon sy'n gysylltiedig â 2003-04, gwelwyd y gwelliannau amlycaf o ran amseroedd cyhoeddi yn Postcomm. Mae Postcomm yn bwriadu cyhoeddi'r cyfrifon ar gyfer 2004-05 cyn i'r Senedd gau dros yr haf.

Cyhoeddiadau Postcomm

Promoting Competition in UK Postal Services through Downstream Access
Mawrth 2004

Royal Mail's Proposal to Introduce Size Based Pricing Ebrill 2004

Modification to Long Term Licence granted to Speedmail International Ltd
Mai 2004

Long term licence application from Special Mail Services Ltd Mehefin 2004

The UK's Universal Postal Service Mehefin 2004

Royal Mail's Management of the PAF Mehefin 2004

Long term licence awarded to DX Network Services Ltd Mehefin 2004

Modification to Speedmail's International's long term licence Gorffennaf 2004

Postcomm consultation on the Welsh Language Scheme Awst 2004

Long term licence issued to Special Mail Services Ltd Awst 2004

Postcomm Annual Report 2003-04 Medi 2004

Long term licence application from Alternative Mails and Parcels Ltd
Medi 2004

Revised Market Opening Timetable Proposals Medi 2004

Competitive Market Review Medi 2004

2006 Royal Mail Price and Service Quality Review: Principles Medi 2004

Building a Viable Network – fourth network report to government Hydref 2004

Long term licence awarded to Alternative Mails and Parcels Ltd
Tachwedd 2004

Licensing Framework in a Fully Open Market Tachwedd 2004

Long term licence application from Mail Plus Ltd Rhagfyr 2004

Notice of a Proposed Direction for Royal Mail to Prohibit Carriage
of Firearms Rhagfyr 2004

Revised Memorandum of Understanding with the Office of Fair Trading
Rhagfyr 2004

Long term licence granted to Mail Plus Ltd Chwefror 2005

Giving Customers Choice: a Fully Open Postal Services Market
Chwefror 2005

Long term licence application from Racer Consultancy Management
Services Ltd Mawrth 2005

Protecting the Mail – a Code of Practice Mawrth 2005

Postal Code of Practice for Common Operational Procedures Mawrth 2005

Royal Mail's Quality of Service Performance Mawrth 2005

Tackling Barriers to Entry in Postal Services Mawrth 2005

Trwyddedau a ddyfarnwyd gan Postcomm

Trwydded gwasanaeth cyffredinol (isafswm o 15 mlynedd)

Cwmni	Cyhoeddwyd	Trwydded i ddarparu
Grŵp y Post Brenhinol ccc	23.03.01	Gwasanaethau post ar draws y DU gyfan

Trwyddedau hirdymor (isafswm o 7 mlynedd) a gyhoeddwyd eleni

Cwmni	Cyhoeddwyd	Trwydded i ddarparu
DX Network Services Cyf	23.06.04	Post crynswth, cydgrynhoi, gwasanaeth cyfnewid dogfennau gwell a gwasanaethau olrhain post busnes-i-fusnes
Special Mail Services Cyf	24.08.04	Post crynswth a gwasanaethau cydgrynhoi
Alternative Mail & Parcels Cyf	18.11.04	Post crynswth, cydgrynhoi a gwasanaethau olrhain post busnes-i-fusnes
Mail Plus Cyf	17.02.05	Post crynswth a gwasanaethau cydgrynhoi

Cwmnïau eraill sydd â thrwydded hirdymor

Cwmni	Cyhoeddwyd	Trwydded i ddarparu
TNT Mail UK Cyf	23.12.02	Post crynswth a chydgrynhoi, gwasanaeth cyfnewid dogfennau gwell a gwasanaeth olrhain post busnes-i-fusnes
Express Cyf	23.04.03	Post crynswth, cydgrynhoi a gwasanaethau cyfnewid dogfennau gwell.
UK Mail Cyf	12.06.03	Gwasanaethau cydgrynhoi
Speedmail International Cyf	13.01.04	Post crynswth, cydgrynhoi a gwasanaethau olrhain post busnes-i-fusnes
Deutsche Post Global Mail (UK) Cyf	22.03.04	Post crynswth, cydgrynhoi a gwasanaethau cyfnewid dogfennau gwell

Cwmnïau â thrwyddedau interim

Cwmni	Cyhoeddwyd	Trwydded i ddarparu
TNT UK	21.06.01	Gwasanaeth post mewnol ar gyfer dau fusnes gwasanaethau mewnol.
Securicor Omega Express Cyf	22.05.02	Gwasanaethau post mewnol ar gyfer Royal Bank of Scotland a HSBC
Speedmail International Cyf	25.07.02	Gwasanaethau ystafell bost peilot ar gyfer busnesau: casglu post gan Post Brenhinol, ei ddioli a'i ddosbarthu'n uniongyrchol i unigolion yn swyddfeydd cleientiaid.

Cyhoeddir trwyddedau interim am isafswm o 12 mis

Cyflwyno Adroddiadau Statudol